O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 269 (Cy. 32)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4 (Ffordd Rhuthun), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2013

Gwnaed	*12 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*18 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd, oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4 (Ffordd Rhuthun), Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 18 Chwefror 2013 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A483 ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.